




tud 3 Pobl a Phethe	tud 5/7 Ysgolion	tud 11 Ble yn y byd?	tud 12 Chwaraeon
-------------------------------	----------------------------	--------------------------------	----------------------------

Cwacs y Bont

Roedd sefydlu busnes gwerthu wyau sofflieir yn waith caled iawn. Roedd llawer o bethau i gytuno cyn dechrau. Yn gyntaf rhoddodd Mr Jones ni mewn grwpiau a rhoi tasg i ni. Roedd yn rhaid i ni ddewis cadeirydd a darlunydd. Ar ôl i ni eu dewis roedd angen cynllun i'r cw b ble roedd y sofflieir yn mynd i fyw. Gwaith pawb o'r grŵp oedd gwneud cynllun yr un, a wedyn dewis yr un gorau. Nid oedd ein grŵp ni yn gallu dewis rhwng dau gynllun felly cyfunon ni'r ddau. Ar ôl dewis y cynllun penderfynom ni fod angen i'r darlunydd wneud y cynllun ar bapur. Roedd angen enw a logo arnom ni. Cytunodd pob grŵp ar enw a logo. Cawsom bleidlais i benderfynu pa enw roeddem ni'n mynd i gael. Cytunodd y




Prosiect Soflieir Blwyddyn 5 a 6 Ysgol Tal-y-bont

dosbarth ar Cwacs y Bont o grŵp merched Blwyddyn 6. Yn ffodus daeth Mrs Llinos Jones o Fanc Barclays i drafod o

ble byddem ni'n gallu cael yr arian i sefydlu'r busnes. Siaradodd hi gyda pob grŵp yn unigol ac roedd hi'n help mawr i ni.

I helpu'r darlunwyr gyda dewis logo a meddwl am y pacedi, aeth Robin, Mari, Alex a fi i dŷ Mr Ceri Jones i drafod y pacedi ac o ble roedden ni'n mynd i gael y bocsys wyau. Dewisodd Mr Jones y logo roedd e'n hoffi orau sef logo grŵp bechgyn Blwyddyn 6.

Roedd angen mwy o waith arnom ni i ddewis pa gwb i brynu. I ddewis pa un oedd orau gwnaeth pob grŵp fodel o'r cw b. Cymerodd hi drwy'r dydd i wneud hyn. Roedd Mr Jones yn hapus gyda phob cwt ond yn anffodus i fechgyn Blwyddyn 6



doedd e ddim yn hapus gyda'u hymgais nhw! Rydym ni'n mynd i gael arian o'r Clwb Ffrwythau i brynu'r cw b. Rydym ni heb orffen eto ond mewn ychydig o wythnosau byddwch chi'n gallu prynu wyau sofflieir fresh Ysgol Tal-y-bont.

Gan Ffion Nelmes



Papur Pawb		
Golygydd Cyffredinol:	Geraint Evans Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion. post@garnwen.org.uk Cysyllter â golygyddion y mis. Carys Briddon	(01970) 832473
Tynnu lluniau: Teipyddes:		
Bont-goch: Parsel Henlllys: Eglwysfach: Taliesin: Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Dylis Morgan, Alltgoch Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais Mai Leeding, Glannant, Taliesin Aileen Williams, Maesmeillion Kathleen Richards, Y Bryn Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl Janet Evans, Cefngweiriog Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	832566 832498 (01654) 781312 832672 832438 832201 832429 (01654) 781260 832483
Tre'r Ddôl:		
Maes y Deri:		
Cadeirydd: Is-gadeirydd: Ysgrifennydd: Tysorydd: Aelodaeth: Hysbysebion: Plygu: Dosbarthwyr:	CYMEITHAS PAPUR PAWB Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont Geraint Pugh, Dôl Pistyll Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Eurllys Jones (Tanysgrifiadau)	832448 832433 832384 832560 832438 (01654) 781312

14 **Bethel** 10 Gweinidog
Nasareth
Rehoboth 10 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 2.30
Gosber a Chymun

15 **Merched y Wawr**
Tal-y-bont a'r Cylch.
Cyfarfod Blynnyddol.
Gwenda Lloyd yn ein
cyflwyno i Reiki

18 **Sefydliad y Merched**
Tal-y-bont. 7 p.m. Monica
Lloyd Williams yn siarad am
ei gwaith yn Sierra Leone

19 **Ffrindiau Cartref**
Tregerddan yn cynnal
barbeciw yn y Cartref am
6.30 y.h. Croeso cynnes i
bawb

21 **Bethel** 10 Undebol Gerlan,
Y Borth
Nasareth
Rehoboth
Eglwys Dewi Sant 11
Offeren
Eglwys St. Pedr, Bontgoch
2.30 Cymun Bendigaid

26 **Clwb Nos Wener.** Barbeciw
Gwin, Caws a Chân. Eglwys
St. Pedr, Bontgoch (Elerch)
gyda Chôr CYD
Aberystwyth a Sioned ac
Elin. 7 p.m. Tocynnau £6
(£1.50 i blant)

28 **Bethel** 2 Parch J.E. Wynne
Davies
Nasareth 5 Bugail
Rehoboth 10 Rhidian
Griffiths
Eglwys Dewi Sant 9.30
Matins

GORFFENNAF

5 **Bethel** 10 Gweinidog
Nasareth 11.15 Bugail (C)
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Dewi Sant 2.30
Offeren
Eglwys St. Pedr, Bontgoch
(Elerch) 2.30 Hwylol Weddi

6 **Pwyllgor Sioe Tal-y-bont.**
8 p.m.

12 **Bethel** 10 Parch Irfon Evans
Nasareth 2 Judith Morris
Rehoboth 10 Oedfa
Undebol yr haf
Eglwys Dewi Sant 2.30
Gosber a Chymun

16 **Sefydliad y Merched**
Tal-y-bont. Ymweld â
Pennal

19 **Bethel** 2 Miss Delyth
Morgans
Nasareth
Rehoboth 10 Huw Roderick
Eglwys Dewi Sant 11
Offeren

3 Sefydliad y Merched
Tal-y-bont. 7.15 p.m.
Noson aelodau

6 Bethel 2 Gweinidog
Nasareth 11.15 Bugail (C)
Rehoboth 5 T.J. Ifron Evans
Eglwys Dewi Sant 2.30
Offeren
Eglwys St. Pedr, Bontgoch
2.30 Hwyrwl Weddi

7 Pwyllgor Sioe Tal-y-bont
8 p.m.

Cyfeirbyddio cerbydau
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Cy cyhoeddiad newydd

**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD**

©Cambridge Journals Online

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Iolo Davies, Doleifion fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 21ain yn ystod mis Mehefin.

Prifathro Newydd
Llongyfarchiadau i Gwenallt Llwyd Ifan Llys Alaw Tal-y-bont ar ei benodiad yn bennaeth Ysgol Penweddig. Pob llwyddaint yn y swydd newydd

Dyweddio
Llongyfarchiadau i Sian Evans a Geraint Pugh, Dôl Y Pistyll ar ei dwyddiad. Dymuniadau gorau i'r ddau.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Iestyn a Katy, 90 Maes y Deri, Tal-y-bont, ar enedigaeth mab bach ar y 7fed o Fai, a hefyd rhaid llongyfarch Gerald ac Eirian Roberts ar enedigaeth eu hŵyr, Owen, ac i Nerys a ddaeth yn fodryb.

Penblwydd Arbennig
Dymuniadau gorau i Nerys Roberts, 90 Maes y Deri a Kristian Davies, 83 Maes y Deri fydd yn dathlu penblwydd arbennig ddiwedd y mis.

O'r Ysbyty
Da yw deall bod Iestyn Roberts yn gwella ar ôl llawdriniaeth i'w benglin yn Ysbyty Bronglais.

Cydymdeimlad
Cydymdeimlwn â Mrs Odette Moses a'r teulu, 8 Maes y Deri, Tal-y-bont, ar golli ei gŵr, Mr Henry Moses.

Ŵyr Newydd
Llongyfarchiadau i Sioned ac Alun Tobias ar enedigaeth mab, Iestyn Myrddin, yng Nghaerdydd ar Mehefin 4ydd. Mae Iestyn yn ŵyr cyntaf i Carys a Dilwyn Jones, Llys Eleri, Tal-y-bont.

O'r Ysbyty
Gwellhad buan i Pegi Evans, Rhiwlan, Peter Manley, Swyn-y-Leri, ac i mam Jennifer, Garage Davmor sydd wedi treulio amser yn yr ysbyty. Croeso gartref i Mr Evans, Frongoch, Tre'r Ddol ar ol cyfnod yn yr Ysbyty a gobeithio fod Mrs Evans yn dal i wella.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Dylan Lewis, Maes Gwyn, Tre'r Ddol a Tina Jones, Cwmere Uchaf, Temple Bar ar ei dwyddiad.



Cynhaliwyd Gŵyl Fai Merched y Wawr yn Neuadd Goffa Aberaeron ar ddydd Sadwrn, 9 Mai, a bu dwy o'r aelodau yn llwyddiannus mewn gwahanol gystadlaethau yno. Enillodd Tegwen Jones y wobr gyntaf am wneud Marmalêd a Cheuled Lemwn, a bydd y cynnyrch yma yn mynd ymlaen i gynrychioli Ceredigion mewn cystadleuaeth yn Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd ym mis Gorffennaf. Hefyd enillodd Tegwen yr ail wobr am wneud Paté, a Margaret Jones y drydedd wobr am Gwiltio. Llongyfarchiadau iddynt.



Gwasanaeth Unedig

Daeth tyrfa o dros 40 ynghyd i wasanaeth unedig a gynhaliwyd ar brynhawn Dydd Sul Mai 31 yn Eglwys St. Pedr, Elerch. Diolch i gyfellion Penrhyn-coch a Chapel Bangor am eu cefnogaeth. Mwynhawyd te blasus yn yr Eglwys ar ol y gwasanaeth. Edrychwn ymlaen at y noson flynyddol o gaws, gwin a chân ar 26 Mehefin, Croeso i bawb.

Croeso Nol
Mae dda gweld Mr David James Thomas wedi dychwelyd i'w gartref yn Tanllidiart, Bont-goch, ac estynnwn groeso cynnes a dymuniadau gorau iddo.

Gwellhad buan
Dymunwn wellhad buan a llwyr i Mrs Sylvia Cartwright, Y Romans sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty.

ANGEN

Hen ddarnau o ddefnydd cotwm (dillad gwely) gwyn + lliw ar gyfer gweithdy celf.

Cysylltwch â Ruth Jên ar 01970 832050, neu galwch draw i'r Hen Siop'Sgidiau.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Emma a Bernard, 21 Maes y Deri, ar enedigaeth mab bach.

Symud Tŷ
Dymunwn pob lwc i Michael a Kate sydd yn symud i'w cartref newydd, 78 Maes y Deri.

Marwolaeth
Cydymdeimlwn â theulu Bronwen Vaughan a fu farw ar 25 Mai yn 81 mlwydd oed.

Prawf Gyrru
Llongyfarchiadau i Siôn Evans, Neuadd fawr, ar basio prawf gyrru yn ddiweddar.

Priodas Ruddem
Llongyfarchiadau i Dilys a David, Alltgoch sydd wedi dathlu eu Priodas Ruddem ar 24 Mai.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â Jennifer Evans, Neuadd Fawr, sydd wedi colli modryb yn ddiweddar.

Diolch
Hoffai Margaret Myrtle Williams, Maes Mwyn, Tal-y-bont, ddiolch o galon i bawb a ddymunodd yn dda iddi hi ar ôl ei damwain ddechrau mis Mawrth. Mae'n dda dweud ei bod yn gwella ac yn edrych ymlaen i fynd â Bobby am dro yn fuan.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Hefin ac Ellie ar enedigaeth merch, Mari Lloyd Williams, chwaer i Ifan a wyres i Nain a Taid Gwarcwm.

Cydymdeimlo
Dymunwn gydymdeimlo a Beti Wyn a'r teulu Rhos, Taliesin, ar golli ei thad Y Parch Owen Williams. Hefyd a Mrs Myfanwy Rowlands a Mrs Meinir Fleming ar golli perthynas yn Aberystwyth, Mrs Eluned Isaac.

Croeso
Estynwn groeso i Mr Benjamin Moore sydd wedi dod i fyw at ei fab Mike a Ann yn Bodhyfryd, Taliesin.

Swydd Newydd
Dymunwn yn dda i Julian Thomas, Glas Y Ddol, Tal-y-bont yn eu swydd newydd gyda'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Aberystwyth. Bydd angen rhywun profiadol fel ti i gadw llygad ar y pwrs cyhoeddus!



Cymdeithas Gwartheg Duon

Daeth tyrfa o dros 500 i babell fawr yng Ngherrigcaranau i gefnogi apêl y gymdeithas i godi estyniad i'r pafiliwn ar faes y Sioe Fawr ar nos Lun, Mai 25. Cafwyd pryd blasus o gig eidion a phwдинаu lu cyn adloniant gan fand pres Ysgol Penweddig a Bois Tynnddraenen ymhlith eraill. Mr Gwilym Jenkins oedd llywydd y noson a Dai Jones Llanilar oedd yng ngofal yr arwerthiant o dros hanner cant o eitemau. Yn ei plith oedd llyfr o luniau yn dogfenni hanes y gymdeithas. Codwyd y swm anrhydeddus o dros £16,000 ar y noson.



Newyddion o faes Eisteddfod yr Urdd Caerdydd 2009

Llongyfarchiadau mawr i Esther, Medi, Zoë, Bethan a Catrin am ennill y gystadleuaeth ensemble cerddorol dan 11 yn Eisteddfod yr Urdd dros yr hanner tymor. Llongyfarchiadau mawr i Seren hefyd am ennill y gystadleuaeth unawd chwythbrennau i blant dan 11 oed a hithau ddim ond ym Mlwyddyn 4. Arbennig o dda ferched a phob hwyl i chi i gyd yn y dyfodol.

Hefyd yn cyrraedd y llwyfan oedd Gwydion Jones oedd yn rhan o ensemble hŷn Penweddig a gipiodd y drydedd wobr, y tro olaf iddo gystadlu gyda'r ysgol.

Cafodd Sam Ebenezer wythnos reit brysur hefyd a gwelwyd ef ar lwyfan Canolfan y Mileniwm yn cipio'r drydedd wobr am y ddeuawd cerdd dant gyda Sophie Rudge yn ogystal a chyrraedd y brig gyda'r côr gwerin a'r côr pedwar llais.

Yn perfformio fel rhan o gwmni theatr ieuenctid yr Urdd yn y sioe gerdd 'Ffawd' oedd Hedydd ac Elliw Davies, wyresau Gwilym ac Ann Jenkins.



Bois y tractors ar daith

Ysgol Llangynfelyn



Ymgyrch codi arian Bags 2 School

21.05.2009



Criw Ysgolion Iach

Apêl Cancr

Oer a gwyntog ond sych oedd hi a Peter, Geraint a minnau yn mynd yn y car efo Bethan i Ceri, ger y Drenewydd. Roedd y tractorau wedi mynd yno ddydd Gwener. Tua 9 o’r gloch dyma ddechrau ar y daith o tua 50 milltir i’r Borth. Roedd bryniau Ceri yn heulog a gwyntog, ac wedyn lawr i Landinam, Trefeglwys, Llawryglyn, cyn cyrraedd Dylife a’r Star Inn am ginio. Roedd Roland a Iolo yna a sawl wyneb arall cyfarwydd.

Tipyn gwlypach ac oer oedd hi pan oeddem yn ail ddechrau ar ein taith heibio llyn Glaslyn, Bugeilyn, Rhosygarreg, Mynydd Sedol, Trawsfynydd, Coed Esgair Ffordd, Hafodwnnog, Plas y mynydd, Bwlch y Garreg ac i lawr Cwm Ceulan i Dal-y-bont. Ymlaen i Henllys, heibio Brynllys ac i lawr drwy’r afon i Borth, ac i fyny i Blaenwaun lle roedd paned bendigedig wedi ei baratoi gan Bethan i bawb.

Roedd y 34 hen dractor wedi cyrraedd yn saff, a phwrpas y daith oedd codi arian i gancr er cof am un o’n haelodau o Glwb y Canolbarth a fu farw y llynedd. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Diolch hefyd i Bethan a Peter am y barbeciwr ar ddiwedd y dydd. Bu rhai yn aros dros nos yn yr ardal cyn troi nôl i’r canolbarth ddydd Sul.

Aeron Williams

Dathlu Arbennig

Ar yr 28ain o Chwefror cafwyd barti yng Nghlwb Rygbi Aberystwyth i ddathlu penblwydd Anwen Howard, Brynfa yn 40ain oed.

Gofynnwyd i’r gwsteion roi rhodd ariannol at Ward Angharad (Plant), Ysbyty Bronglais yn lle prynu anrhegion, a chodwyd dros £600 at yr achos. Wedi trafod brwd rhwng Anwen a’r Ward, penderfynwyd rhoi’r arian tuag at setiau digidol a llawer iawn o nwyddau chwarae a mwynhau.

Dywed Anwen “Pan mae Geraint yn gorfod gael triniaeth gall fod yn gaeth i’r gwely am 3-4 awr ac mae gêmâu Nintendo a PSP, ffilmiau a rhaglenni teledu yn ffordd o’i ddiddori ac yn ffordd iddo ymlacio. Hoffwn ddiolch i bawb a ddaeth i’r parti am eu rhoddion ac am wneud y noson yn sbesial iawn. Hoffwn hefyd ddiolch i’r rhai fethodd â dod ond a yrrodd arian beth bynnag, mae’n golygu llawer iawn i Geraint a llawer tebyg iddo sy’n mynychu’r ysbyty yn rheolaidd.”

Merched y Wawr Tal-y-bont a’r Cylch

Bu’n rhaid canslo ein taith gerdded flynyddol dan ofal John a Mai Leeding ar Galan Mai oherwydd y tywydd anwadal, er mawr siom i’r aelodau. Ar nos Lun, 18 Mai aeth llond bws o’r aelodau i ymweld â Chanolfan Genedlaethol i Gerddoriaeth Cymru yn Nhŷ Siamas, Dolgellau. Mae enw’r Ganolfan yn coffáu Elis Siôn Siamas, y cerddor cyntaf i lunio telyn deires yng Nghymru. Cawsom ein croesawu gan Mair Tomos Ifans ac eglurodd mai nod y Ganolfan yw cynnal prosiectau addysgiadol yn y gymuned, yn ogystal â bod yn Ganolfan addysgiadol. Cawsom weld pob math o offerynnau cerdd yn yr arddangosfa, cyn cael ein diddanu gan Mair. Ar ddiwedd y noson mwynhawyd lluniaeth ysgafn yn y caffe. Talwyd y diolchiadau gan Ann Thomas.

Cymorth Cristnogol Llangynfelyn

Eleni eto cynhaliwyd casgliad o ddrws i ddrws ym mhlwyf Llangynfelyn ym mis Mai tuag at elusen Cymorth Cristnogol. Casglwyd y swm o £213.81 gan Olwen Rowlands, Sue Williams a Carys Briddon, a hoffent ddiolch i bawb a gyfrannodd. Owen Jenkins oedd yng ngofal y trefniadau ariannol.

Cymorth Cristnogol Ceulanamaesmawr

Daeth yn wythnos Cymorth Cristnogol a’r casglwyr yn barod i wneud ei gwaith. Wedi cyfrif yr arian cafwyd cyfanswm o £972.67. Hoffwn ddiolch i Mrs Hammonds am gasglu dros gyfnod o sawl blwyddyn. Roedd Gwen Hughes am gael seibiant bach eleni a braf yw cael croesawi Menna a Marie at weddill y casglwyr. Diolch yn fawr i bawb.

Janet Jones

Ysgol Llangynfelyn

Mae Mrs Linda Hicks yn ymddeol o’r ysgol ar ddiwedd y tymor ar ôl 34 mlynedd yn coginio i nifer fawr o blant yr ardal. Os hoffech gyfrannu at rhodd iddi, dylech sicrhau fod yr arian yn cyrraedd yr ysgol erbyn 01/07/09.

Mi fydd Mrs Daniell hefyd yn ymddeol ar ddiwedd y tymor ar ôl 17 mlynedd yn dysgu plant Llangynfelyn a’r cylch. Dymunwn ein dymuniadau gorau iddi yn ei ymddeoliad.

Traws Gwlad yr Urdd

Bu Tobia Heathfield yn cynrychioli’r ysgol mewn cystadleuaeth traws gwlad yn Llangrannog yn ddiweddar. Da iawn ti am redeg mor dda.

Gwersi beicio

Mae blynyddoedd 5 a 6 wedi dechrau derbyn gwersi beicio yn yr ysgol er mwyn eu hyfforddi i seiclo yn ddiogel ar y ffordd. Gobeithiwn bydd y disgyblion yn cofio rheolau’r ffordd fawr.

Ymweliad y Brigâd Dân

Cafwyd ymweliad diddorol gan y frigâd dân yn ddiweddar wrth iddynt sôn am ddiogelwch tân yn y cartref. Trafodwyd nifer o bwyntiau pwysig gan gynnwys cynllunio sut i ddianc o’r cartref os oes tân gyda’r nos.

Arlunydd

Cafwyd ymweliad i’r ysgol gan yr arlunydd Ruth Packham o Borth yn ddiweddar. Fe fuodd yn arddangos ei gwaith i’r plant ac yn ateb cwestiynau. Mi fydd yn dod nôl yn fuan i weithio gyda’r plant i gyd i greu crysau-t unigol.

Bags 2 School

Diolch i bawb a wnaeth gyfrannu at yr ymgyrch bags 2 school yn ddiweddar. Casglwyd nifer fawr o fagiau dillad ac edrychwn ymlaen at dderbyn siec fawr i’r ysgol.

Rydym ar hyn o bryd yn casglu hen ffonau symudol er mwyn eu hailgyrchu a codi arian i’r ysgol. Os oes gennych unrhyw hen ffonau symudol yna dewch â nhw i’r ysgol erbyn 01/07/09.

Ysgol Iach

Llongyfarchiadau mawr i bawb yn yr ysgol ar ennill y ddeilen gyntaf o’r Cynllun Ysgolion Iach. Mae pawb wedi bod yn brysur iawn yn hyrwyddo iechyd o fewn yr ysgol, ac mae’r holl waith wedi dwyn ffrwyth. Diolch yn arbennig i Mrs Daniell am ei holl gwaith caled yn cydlynu’r ymgyrch. Edrychwn ymlaen at ennill yr ail ddeilen y flwyddyn nesaf.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd

Bu’r ysgol yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd eto eleni. Er ni chafwyd llwyddiant ar y llwyfan rydym yn falch iawn ein bod wedi cyrraedd yr Eisteddfod. Llongyfarchiadau i Arran Clarke a’r grŵp dawnsio creadigol am eu ymroddiad i’r ysgol.

Age Concern - Ceredigion

CLWB CINIO TAL-Y-BONT

YDYCH CHI’N MWYNHAU CYMDEITHASU,
Cael hwyl, cadw’n iach, mwynhau bwyd blasus?
YMUNWCH A NI - CLWB CINIO TAL-Y-BONT.
CWRDD UNWAITH Y MIS YN Y LLEW DU

Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch â Jane Raw-Rees, Swyddfa Aberystwyth, Cyngor Henoed Ceredigion, Yr Hen Ysgol Gymraeg, Ffordd Alexandra, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1LE.
Ffôn: (01970) 615151. E-bôst: jrr@ceredigionageconcern.fsnet.co.uk
Elusen Cofrestredig1042789

Y Parchedig Owen Williams

1910 - 2009

Ar fore Gwener 15 o Fai, cynhaliwyd gwasanaeth angladdol yng Nghapel Bethel, Tal-y-Bont i ddiolch mewn llawenydd am fywyd a gwaith Y Parchedig Owen Williams, Hafodawel, 2 Tanygraig - gŵr ffyddlon y diweddar Glenys Williams, tad cariadus, hawddgar a thyner Beti Wyn a John-Huw, tad yng nghyfraith Brian, taid annwyl Siwan, Ffion, Robert, Helen a David a hen-daïd gofalus i'r plant bach a oedd yn agos iawn at ei galon ar bob achlysur.



Ar hyd y blynyddoedd bu'n Weinidog doeth a chydwybodol gan bregethu yr Efengyl yn rymus a deallus. Bu ef a'i wraig yn weithiwr diflino gan rhoi o'u doniau lluosog i hybu diwylliant a ffydd y gymdeithas a'r aelodau yn Sardis, Ystradgynlais, Cwm Tawe ac yna yng Nghapel Nonni, Llanllwni a Bethel, Drefach, Llanybydder. Ar ôl ymdeol yn 1980, symudodd i Dal-y-Bont ac er colli ei gymar annwyl yn frawychus o sydyn yn 1986 mi ddaliodd ati i bregethu bob Sul a chael pleser yn teithio o amgylch y dalgylch yn llenwi pulpud pob enwad yn yr ardal hyd nes yr oedd yn ei nawdegau cynnar. Daliodd ei ysbryd, ei ffydd gadarn a'i awydd i bregethu yn gryf gan ddefnyddio rhyddiaith a barddoniaeth ei genedl yn hyddysg a grymus.

'Roedd yn ddyn hardd mewn llawer ffordd a modd - mewn pryd a gwedd, mewn gair a gweithred o natur foneddigaidd a chwrtais bob amser. Daliodd hyd y diwedd yn llawn urddas a diolchgarwch. 'Roedd ganddo gof aruthrol a llais tenor melodicaidd. Mowldiodd y cyfan yma i'w wneud yn berson cyflawn gan ddiddori cynulleidfaoedd dros Gymru gyfan a phawb yn fawr eu barch iddo - fel y dywedodd y Parchedig John Watkin ar ddydd ei angladd 'Bu ei adnabod yn addysg ac yn ysbrydiaeth'.

Bu yn weinidog... 'fu'n taenu'r Gair fel gwllith.
Profi'r gorfoledd ar bob Sul a Gwyl
Pan dyrrai'r lluoedd i'n capeli plaen,
Emyn a phregeth yn cynhesu'r hwyl
A'n hiaith drwy'n gwlad i'w chlywed gyda graen.

J.R.

Bu yn dad a thaid gofalus a thyner, yn ymddiddori yn natblygiad y plant, yn ddoeth ei eiriau ac yn sensitif ei gyngor ar bob achlysur. Bu yn weinidog a bregethodd ei wladgarwch a'i heddychiaeth yn rymus. Carodd ei wlad a'i hiaith ac arhosodd yn fawr ei barch o'i wreiddiau a'i fagwriaeth yn Nhanygrisiau, Blaenau Ffestiniog. Nid oedd dim yn well ganddo nag ymweld a'i hen fro mor aml a phosib a rhyfeddu at harddwch y wlad, dycnwch y chwarelwr fel y carodd hefyd ymrwymiad y glowr yng Nghwm Tawe a'r amaethwyr yn Nyffryn Teifi. Carodd natur a'r cread oll. Iddo ef 'roedd pob peth hardd a glan yn rhodd Duw a mawr oedd angen ei pharchu.

Darlennodd yn helaeth am arloeswyr a dynion a merched mewn hanes a diwylliant a newidiodd gwrs y Byd am eu gweithredoedd da. Llwyddodd i wau y cyfan i mewn i'w bregethau a teimlau pawb eu bônt wedi dysgu llawer yn ei gwmni. Felly yr oedd yn athro da ac yn ddiogel ei ymweddiad di-sigl ei ffydd hyd y diwedd.

I'r teulu oll mae'r golled yn fawr a'u bywydau yn llawer gwacach heb ei gwmni siriol a chroesawgar.

'Cyfaredd cof a'n ceidw - un ag oll
Y dyddiau dedwydd nad ant fyth ar goll.

Dymunwn fel teulu ddiolch am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd inni dros yr wythnosau diwethaf gan ddiolch am gyfraniadau a ddaeth i law i hyrwyddo gwaith Cymorth Cristnogol - achos teilwng 'roedd bob amser yn agos i'w galon.

"Gwyn ei byd y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder oherwydd cant hwy eu digoni"

Arddangosfa Gelf

Pleser mawr oedd ymweld ag arddangosfa bendigedig o baentiadau gan David Ware a Roy Parsons yn 'Y Stabl', 1 Halfway, Tre'rddôl. Teitl y sioe oedd 'Tirluniau a Lluniau'r Meddwl' (*Landscapes/Mindsapes*) sydd yn adlewyrchu'r cysylltiad sydd rhwng gwaith y ddau artist lleol.

Wrth gyrraedd yr hen stabl croesawyd fi yn gynnes gan Roy a oedd yn arddangos ar y llawr isaf. Mae Roy yn paentio mewn sawl dull, yn haniaethol ac argraffiadol ac mae'n hoff iawn o liwiau cynradd. Daeth Roy i Gymru yn y nawdegau ac esboniodd, "Dechreuais i ysgrifennu ond cymerodd paentio drosodd. Mae paentio yn rhoi canlyniadau imi ar unwaith ac rydw i'n teimlo yn rhydd i wneud yn union be' rydw i eisiau. Wi'n hoffi'r ffordd y mae pethau yn datblygu'n naturiol."

I fyny'r grisiau oedd David yn eistedd yn ei stiwdio. Ganwyd yn Llwynypia yn y Rhondda ac fel dyn ifanc aeth dros y môr i fyw yng Nghanada am fwy na hanner can mlynedd. Gwelais debygrwydd i eangderau Canada yn ei dirluniau mawr, golygfeydd o Dalyllyn, y Dyfi a'r Wyddfa. Eglurodd David bod awgrym o ddull swrealaidd i'w weld yn un neu ddau o'r paentiadau, tra bod y rhan fwyaf yn hollol realistig. Hefyd roedd casgliad lluniau pensel, sydd yn portreadu lefydd fel Melin Ffwrnais neu Castell Harlech.

Dwedodd David pa mor ddiolchgar oedd e gael cyfle i ddychwelyd i Gymru ym 2005 i baentio tirlun "yr hen wlad".

Nic Dunkley



David Ware

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyleillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
078235 575 553

M & D PLUMBERS
Plumbing & Heating
Priciau Cynharaf
Gorngwlad i Ddiwydwr
Yswiriant llawn
iphe
Cysylltwch â ni yn gartref ar
01974 200024 / 0777810000

Siop y Pethe
Aberystwyth
Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

Os am daesi neu fws mini
CAMBRIAN
CABS
Teithiau Pell ac Agos
01970 626292

CEFNOGWCH GYMRÔ LLŊOL
H. LLOYD WILLIAMS
CYNNAL A CHADW' GERDDI
TORRI PORFA A SIETYN.
GOSOD DECKING A SLABIAU
DOES DIM TN O'RHOOD O' HAITHY!
32 Bryncoastell Ffôn: 01970 820999
Blew Street Strydod: 07996 920519

Bu Josh Abbott, Ella Evans ac Ashleigh Evans yn cystadlu mewn pencampwriaeth trawsgwlad yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog ar ddechrau'r mis. Da iawn chi.



Tra bod criw o blant yr ysgol yn aros yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog bu nifer o blant yn cystadlu mewn pencampwriaeth trawsgwlad cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth. Da iawn chi am gystadlu mor daer a diolch i Mrs Lisa Evans am fod yng ngofal y trefniadau.



Llongyfarchiadau i Zoe a Keira am gael eu dewis i fod yn rhan o gynhyrchiad haf Canolfan y Celfyddydau 'The King and I'.



Ddydd Sadwrn 9 Mai cynhaliwyd Garddwest yng ngerddi hyfryd Coetmor, cartref Dr Gareth a Mrs Gwen Hughes. Mawr fu'r edrych ymlaen, gyda Gareth a Gwen yn gweithio'n galed i sicrhau bod popeth yn edrych ar ei orau ar gyfer y diwrnod mawr.

Gyda'r tywydd wedi bod yn braf am rai dyddiau, siom oedd gweld y cymylau duon yn crynhoi uwchben y pentref y bore hwnnw, ond aed ymlaen â'r trefniadau. Yn ffodus iawn, daliodd y glaw i ffwrdd a chafwyd prynhawn hyfryd yn cymdeithasu a sgwrsio, yn mwynhau te blasus, yn prynu cacennau, planhigion a raffl ac yn rhoi cynnig ar gystadleuaeth i geisio dyfalu pwy oedd y plant bach hyfryd yn y lluniau! Yn y cyfamser, roedd croeso i bawb fynd am dro o amgylch llwybrau deniadol yr ardd i fwynhau'r coed a'r planhigion lliwgar, a threfnwyd gweithgareddau i gadw'r plant yn ddiddig. Diolchwyd yn gynnes i Gareth a Gwen am eu croeso twymgalon ac i bawb am gefnogi'r achlysur.

Yn glo ar weithgareddau'r flwyddyn mwynhawyd Swper Cyri yn y Neuadd Goffa ar 3 Mehefin pan ddaeth criw mawr at ei gilydd i fwynhau pryd blasus a chlonc. Trefnwyd y bwyd gan Medi James a Mair Nutting, gyda help nifer o wirfoddolwyr brwdfrydig. Trefnwyd cwis – gyda bwrdd yr Hen Stêjars yn enillwyr haeddiannol! – a thalwyd y diolchiadau gan y Parch. Richard Lewis.

Dymuna swyddogion Bethel ddiolch i bawb am eu cefnogaeth gref i'r apêl; codwyd dros £1,400 yn ystod y flwyddyn, i'w ddefnyddio tuag ag liniaru dioddefaint trigolion un o wledydd tlotaf y byd.


STORFA CANOLBARTH CYMRU

Mid Wales Self Storage Centre

• STORFACH E' • RHODWCH DAM OGLD •
• CADWCH Y GORIAD •



**STORFA
GARTREF**



STORFA FUSNES



**STORFA I
FYFYRWYR**



PACEDU

- **DIOGELWCH
BT REDCARE
24 AWR**
- **OCTV**
- **WEDI'I GYMHESU**
- **CIWBICLAU £10 yr
wythnos (250
ciwb)**
- **ARCHIFAU**

01654 703592

Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
www.midwalesstorage.co.uk

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

Bydd fferm wynt Nant y Moch yn hwb i gymunedau lleol



Bydd Arddangosfeydd Cyhoeddus ar ddatblygiad
Fferm Wynt Nant y Moch
yn cael eu cynnal ar

Dydd Mawrth 16 Mehefin 2009 – 5yh – 8yh:
Neuadd Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd
Dydd Mercher 17 Mehefin 2009 – 11yb – 2yh:
Y Plas, Machynlleth
Dydd Mercher 17 Mehefin 2009 – 5yh – 8yh:
Ystafell Haearn, Ffwrnais
Dydd Iau 18 Mehefin 2009 – 2yh – 8yh:
Neuadd Penrhyn-coch
Dydd Gwener 19 Mehefin 2009 – 2yh – 8yh:
Neuadd Goffa Tal-y-Bont

Croeso cynnes i bawb.
Cyfle i wybod mwy am y cynllun.

www.ffermwyntnantymoch.com

Gallai cymunedau o amgylch Fferm Wynt Nant y Moch, os aiff y cynllun yn ei flaen elwa o gymaint â £420,000 mewn taliad cychwynnol cyn y gwaith adeiladu ac yna dros £280,000 y flwyddyn wedi i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau. Golyga hyn o leiaf £7.5 miliwn dros fywyd disgwylidig y cynllun yn ogystal â swm ychwanegol yn seiliedig ar gynhyrchiant y fferm wynt.

Mae Airtricity hefyd yn gobeithio y bydd cymunedau lleol yn gallu prynu un o'r tyrbinau, neu o leiaf yn cael gwerth un tyrbina o gyfrandaliadau.

"Byddwn, wrth gwrs, yn gwahodd pawb lleol i ddod â syniadau eraill ar gyfer cronfeydd cymunedol," meddai Swyddog Cyswllt Cymunedol y cwmni, Eluned Lewis.



Eluned Lewis

Y ffeithiau

Byddai Fferm Wynt Nant y Moch yn ychwanegu at draddodiad hir yn lleol o gyfrannu at ynni gwyrdd.

Roedd cronfa Nant y Moch ei hun yn rhan o gynllun cynharach i gynhyrchu trydan glân – agorwyd Gorsaf Bwer Dŵr Rheidol yn yr 1960au.

Mae dwy fferm wynt arall - Mynydd Gorrdu a Rheidol – ymhlith y rhai cynharaf yng Nghymru a chafodd ardal Nant y Moch ei dewis gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn un o'r rhai gorau ar gyfer ynni gwynt.

Os bydd y cynllun yn digwydd, gall pobl leol fod yn falch o wybod y bydd y fferm wynt yn cynhyrchu digon o drydan gymaint â'r angen trydan hyd at 65,000 o dai.*

* wedi ei seilio ar ddefnydd ynni cyfartalog o 4.7MWawr gan bob tylwyth bob blwyddyn.

Am ragor o wybodaeth am gynllun Fferm Wynt Nant y Moch, cysylltwch ag Eluned Lewis, Swyddog Cyswllt Cymunedol, Airtricity, Swyddfa 101, Y Plas, Machynlleth, Powys SY20 8ER.
Symudol: 07814 020097 Ffôn: 01654 702720 E-bost: eluned.lewis@airtricity.com www.ffermwyntnantymoch.com

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@ylolfa.com



Ylolfaf
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
ylolfa@ylolfa.com
www.ylolfaf.com

Cwmni Drama Licyris Olsorts

Bu'r misoedd diwethaf yn gyfnod digon prysur i'r cwmni drama lleol Licyris Olsorts wrth iddynt baratoi dwy ddrama ar gyfer cystadlu yn y gwyliu drama a'r Eisteddfod Genedlaethol. Cyfieithiad Emyr Edwards o ddrama 'Confusions' gan Alan Ayckbourn sef 'Y Fam Ddelw' oedd un, gyda Catrin Jenkins,

Gwynant Evans, Janet Roberts a Sion Pennant yn y cast. Yr ail ddrama fu'n cystadlu oedd cynhyrchiad o 'Apocalyps', drama wreiddiol o waith y dramodydd Emyr Edwards gyda Rhian Evans a Sion Glyn Saunders Jones yn y cast. Mae dyled y cwmni yn fawr i ymroddiad a gwaith caled y cynhyrchydd Sion Pennant, Bontgoch am roi o'i amser i gynhyrchu'r dramâu.

Bu'r ddwy ddrama yn cystadlu yng Ngŵyl Ddrama'r Groeslon ym mis Ebrill ac yna yng Ngŵyl Corwen ddechrau Mai ble cipwyd y wobr gyntaf gan 'Apocalyps'. Llongyfarchiadau hefyd i Siôn Glyn Saunders Jones am gipio tlws yr actor gorau dan ddeg ar hugain yng Nghorwen a hynny am y trydydd tro. Cofiwch fod cyfle i weld y ddwy ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol y Bala ym mis Awst pan fydd yr 'Apocalyps' yn cystadlu yng nghystadleuaeth perfformio drama fer a'r 'Fam Ddelw' yn perfformio yn Theatr Fach y Maes. Dymuniadau gorau a phob lwc i'r cwmni.

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Throli Ystafelloedd Tymodol

Gwasanaeth Boeler Olw

01970 832129

07761 917235

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.

Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.

Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glancet, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA

Ffôn: 01970 871042

Symudol: 07773 846659



'Mêcofyr' i'r stordy

Diolch i Ruth Jên am arddurno stordy newydd Clwb Pêl-droed Ieuencid Tal-y-bont a'r Cylch. Ewch i ymweld â chaeau'r Ysgol Gynradd os hoffech weld y gwaith celf gymunedol yma.



Sioe Y Foel 'Welsh'

Cafodd trigolion Eglwysfach, Ffwrnais a Glandyfi ddiwrnod o hwyl a sbri ar y degfed ar hugain o Fai ar gaeau Ty Mawr, Eglwysfach trwy garedigrwydd John a Non Griffiths. Roedd yno stondinau crefft ac elusenol, arddangosfeydd hen geir, CADW ac Amgueddfa Ceredigion. Yn y cylch oedd rasys plant, oedolion a chwn, gwisg ffansi, ras hwyaid, caffi Seren, ac adloniant cerddorol nes hanner nos! Bendigedig oedd gweld pawb yn mwynhau a chymdeithasu yn yr heulwen. Diolch yn fawr i'r trefnwyr a gwirfoddolwyr a gyfrannodd i lwyddiant yr achlysur.



Cwmni Drama Licyris Olsorts - t8



Swper Cyri - t7



CFfi Tal-y-bont

Helo bawb ers llawer dydd! Nid oedd 'na adroddiad yn rhifyn diwethaf o Bapur Pawb, felly heb oedi rhagor, dyma i chi gwerth dau fis o ganlyniadau o'n hynt a'n helynt mewn hanner tudalen cryno!

Yn gyntaf - y cystadlu! Cynhaliwyd Cwis Iau blynyddol clybiau gogledd y Sir yn neuadd Llanilar ar ddechrau fis Ebrill - dim llwyddiant eleni, ond dwi'n siŵr bod nhw'n adolygu'n barod i flwyddyn nesa'! Gala Nofio fuodd wedyn, lawr yn Aberaeron. Difaru gwnaeth Rhys gael y Macdonalds ar y siwrne lawr - llwyddodd i dorri mainc wrth ochor y pwll, ond llwyddodd dod yn 3ydd yn y dull rhydd dan 26!

Os cofiwch chi, daeth llwyddiant i'r tri fuodd yn ffensio yn Niwrnod Maes y Sir, felly buodd trip lan i Ynys Môn i Geraint, Elgan a Rhydian i fwrw postion fewn i dir caregog iawn ar faes Sioe Ynys Môn drwy gynrychioli Ceredigion yn y ffensio. 'Roedd un pasenyr bach arall gyda nhw, sef Dewi a fu'n cystadlu yn y barnu anifeiliaid iau. Wrth gwrs, 'roedd rhaid mynd i gefnogi, ond bron iawn i'r "cheerleaders" orfod nofio nôl o Iwerddon! Byddai map efallai'n syniad da tro nesa'...

Oherwydd y glaw mwyaf dychrynllwyd fis Mai, methwyd cynnal y Chwaraeon, felly gohiriwyd tan y 15fed a'r 22ain o Fehefin! Ond doedd hi ddim yn law i gyd, ar ddydd Sadwrn gŵyl y banc, priododd un o'n cyn-aelodau, Caryl Cerrigcarannau â Edward o glwb Brynchrug! Codwyd picweirch traddodiadol uwch eu pennau i ddymuno'r gorau iddynt ar eu bywyd priodasol!

Felly, dwi'n siŵr eich bod wedi gweld yr eliffant ochor ogleddol y pentref ers dechrau fis Mai. 'Roedd hwn yn rhan o gystadleuthau'r rali, a llwyddwyd i'w osod lan cyn i rai aelodau fynd ar dramp i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cenedlaethol yn Blackpool am y penwythnos.

Dydd Sadwrn y 6ed o Fehefin, cynhaliwyd Rali'r Sir ar fferm Gafryw, Mydroilyn lle bu casgliad o lwyddiannau cystadleuol yn rhoi ni yn y 3ydd safle ar ddiwedd y dydd! Geraint Cerrigcarannau yn cael cwpannau am Unigolyn Gorau Dan 21, Rhesymau Gorau trwy Gyfrwng Gymraeg, Barnu Gwartheg Charollais Dan 21, Dewi Ty'n Graig yn cael cwpannau am Unigolyn Gorau Dan 16, Barnu Gwartheg Charollais Dan 16. Daeth Tarian Ynys Hir ar gyfer Tîm Barnu Biff gorau i Dalybont sef Eifion, Geraint a Dewi. Cipiodd Rhydian Tynant y cwpan am y cneifiwr gorau dan 26, gyda'r Tîm Cneifio yn dod yn 3ydd ar y cyfan. Gwelwyd golwg ryfeddaf ar Geraint a Dewi yng nghanol p'nawn yng nghystadleuaeth Treialon Cwn Defaid Dan Fwrgwd - meistrolodd "Cruella" chwibannu ar "Smotyng" o gwmpas y rhwystrau! A chystadleuaeth olaf y diwrnod oedd y Tablo - gosodwyd golygfa "Mas o 'ma - Rwy'n enwog!" a cipiwyd y wobwr hynny hefyd! Cafwyd calnyniadau da yn y cystadleuthau eraill hefyd - Coginio'n cael 2ail, Coedwigaeth a'r "Generation Game" yn cael 5ed, Blodau a'r Sioe Bypedau'n cael 7fed! Cefais y cyfle eleni i fod yn rhan o'r seremoni coroni ddechrau'r p'nawn fel un o'r morwynion. Gwisgo lan mewn ffrog, ac eistedd ar lwyfan sych oedd yn rhaid i mi wneud! Ond teimlad o flachder mawr oedd cael cyflwyno rhai cwpannau i'n nghyd-aelodau i! A gwyh oedd y dathliadau y noson hynny yn y ddawns â ddilynodd yng Nghel Aeron! Ac er ein bod yn agos, bydd siwrne agosach i ni flwyddyn nesaf gyda'r Rali'n cael ei gynnal yn Llanddeiniol!



Nabod

Mae'r un y down i adnabod y tro hyn a'i wreiddiau'n ddwfn iawn yng nghymuned amaethyddol ardal *Papur Pawb*. Ei enw yw Trefor Jones ac ers nifer dda o flynyddoedd bellach mae'n ffermio yn Cwmcae. Mae Mr Jones newydd gael ei ethol yn Llywydd y Gymdeithas Gwartheg Duon Cymreig a hynny'n uchafbwynt ei yrfa fel amaethwr ac yn wobwr gwbl haeddiannol ar ôl bod yn ymwneud a'r brîd ers yn agos i drigain mlynedd.

Magwyd Trefor ar fferm Tanrallt Taliesin ac yno yn 1946 y cychwynnodd ei dad, Mr Gwilym Jones ar y dasg o adeiladau buches o wartheg duon Cymreig. Symudodd Trefor gyda'i wraig Eirwen i Cwmcae yn 1961 gan gario mlan gwaith ei dad i sefydlu BUCHES Wartheg Pedigri Cwmcae ac yn y deugain ag wyth o flynyddoedd ers hynny mae'r fuches wedi tyfu ac wedi cipio gwobrau lu mewn sioeau lleol a chenedlaethol.

Cefais rywfaint o hanes y brîd gan Trefor. Bridiwyd gwartheg duon yng Nghymru ymhell dros 1,000 o flynyddoedd yn ôl, ac yn yr Alban a rhannau eraill o Brydain, fe'u defnyddiwyd yn aml fel math o arian. Dyna'r rheswm y cyfeirir at y fuches fel "yr aur du o fryniau Cymru". Chwaraeodd y gwartheg a'u porthmyn ran allweddol yn natblygiad rhwydwaith Cymru fodern gan gynnwys gwasanaethau megis ffyrdd a bancio. Byddai'r porthmyn yn gyrru'r gwartheg am wythnosau er mwyn eu gwerthu mewn marchnadoedd yn Lloegr. Wrth i'r porthmyn ddychwelyd i Gymru gyda symiau helaeth o arian byddent yn darged i ysbeilwyr a lladron pen ffordd. Gwnaeth y bygythiad cyson o ladradau arwain at ffurfio un o fencydd cynharaf Prydain yn Llanymddyfri yn 1799, sef Banc yr Ychen Du gydag arian y banc yn dangos darlun o'r fuwch ddu. Cyhoeddwyd y llyfr cyntaf ar fuches y Gwartheg Duon Cymreig ym 1883 ac fe lansiwyd y Gymdeithas gyfoes yng Ngwesty'r Boars Head Caerfyrddin yn Awst 1904.

Hyd yn gynnar yn 70au'r ganrif ddiwethaf, ystyriwyd y Gwartheg Duon Cymreig fel brîd deuddiben o ran cynhyrchu biff a buches odro. Roedd dau fath penodol o'r brîd, sef y math o wartheg biff byrdew o Ogledd Cymru a'r fuwch odro megis yr anifail o Dde Cymru neu Gastell Martin. Cyfunwyd y nodweddion gorau o'r ddau yn yr unfed ganrif ar hugain i greu brîd sy'n wydn, yn lloia'n rhwydd ac yn gynhyrchuol o ran llaeth a chig.

I ddychwelyd at fuches Cwmcae, cafodd Trefor anrheg o bum buwch gan ei Dad a dyna sut dechreuodd y cyfan. Cofio mynd wedyn i farchnadoedd yn Nolgellau a Phorthaethwy i brynu dwy fuwch arall a gorfod talu pris uchel am y ddwy. Roedd ei nod yn bendant - prynu'r gorau y gallai fforddio ac o'r cychwyn cyntaf cadw'r llinell fridio yn bur. Aethpwyd ati i gystadlu yn 1969 - mynychu'r sioeau bychain yn y De a'r Gogledd ac yna'r Sioe Frenhinol yn Llanelwedd a chipio llu o wobrwyon. Mae'n debyg mae'r llwyddiant mwyaf oedd ennill ym mhencampwriaeth y *Beef Expo* yng ngwanwyn 2005. Gwnaeth un o wartheg Cwmcae a heffer pum mis oed ennill yn y gamp o'r Fuwch Gymreig Orau, mynd ymlaen i ennill yng nghystadleuaeth y Fuwch Frodorol Orau ac yn y diwedd curo dau ar hugain o wartheg a bridiau tramor i gipio gwobr y Fuwch a'r Llo gorau. Tipyn o gamp - anifail o fferm Cwmcae yn curo'r gorau y gallai Ewrop gynnig!

Gymaint oedd y llwyddiant fel y derbyniodd Trefor ymholiadau o Ewrop ac yn 2007 allforiwyd tarw o fuches Cwmcae i'r Almaen a tair heffer i Ddenmarc. Cyn chwedegau'r ganrif ddiwethaf ychydig o Wartheg Duon Cymreig a allforiwyd. Erbyn hyn mae'r gwartheg i'w gweld mewn nifer helaeth o wledydd ar draws y byd a bellach maent yn bodoli yng Nghanada, Seland Newydd, Awstralia a'r Almaen yn ogystal â gwledydd, megis Saudi Arabia, Jamaica ac Uganda. Meddyliwch felly, buwch a ddaeth yn enwog am ei gwydnwch a'i gallu i wrthsefyll tywydd oer a gwlyb ucheldir Cymru yn llwyddo ac yn ffynnu yng ngwres a haul Jamaica!

Arwydd arall o statws Trefor yw'r gwahoddiadau niferus a dderbyniodd i farnu mewn sioeau rhanbarthol a chenedlaethol.



Trefor Jones Cwmcae yn cael ei urddo yn lywydd gan Mr Richrad Hughes Bodorgan Ynys Mon.

Mae'n cyfaddef yn ddigon parod ei fod yn mwynhau barnu a hynny am ddau reswm - ei fod yn medru gweld a gwobrwyo goreuon y brîd ac yn bwysicach fod y cystadlu yn rhoi cyfle i sgwrsio a chael clonc gyda bridwyr eraill. Yng nghanol yr holl lwyddiant ni anghofiodd Trefor ei wreiddiau - bu'n gystadleuydd (ac enillydd!) cyson yn Sioe Tal-y-bont ac mae'n gyn cadeirydd a llywydd Cymdeithas y Sioe. Mae'n aelod ffyddlon o Undeb Amaethwyr Cymru ac unwaith eto wedi dal swydd Cadeirydd a Llywydd Cangen Ceredigion.

Un o anrhydeddau a phrofiadau rhyfeddaf Trefor oedd cael arwain tarw o fuches Cwmcae i faes Parc y Strade a maes Stadiwm y Mileniwm cyn gemau rhwng Llanelli a Chymru a Seland Newydd - yr anifail yn sumbol o Gymru ar ei gorau. Colli bu hanes y ddau dîm cartref ond yr hyn mae Trefor yn cofio am faes y Stadiwm yw ei fod yn hynod o nerfus a bod y tarw yn gyflym suddo drwy'r borfa - profiad cyffredin i sawl un o 'deirw' y crysau cochion!

A beth am flwyddyn ei lywyddiaeth? Wel, mae un peth yn sicr, fe fydd hi'n flwyddyn brysur. Ychydig ddiwrnodau ar ôl fy ymweliad a Chwmcae roedd Trefor ac Eirwen yn mynd i arwerthiant pwysig o'r gwartheg duon yn Llanymddyfri, yna'r cyntaf o'r sioeau rhanbarthol ym Mhontargothi, y *Royal* yn Stoneleigh ac wrth gwrs y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd. Fe ddaw tymor y sioeau i ben yn yr Hydref ond fe fydd na gyfres gyson o arwerthiannau. Drwy'r cyfan ac yn ystod y cyfan yr un fydd nod Trefor Jones Cwmcae - cynnal a chodi safon y brîd a bod yn llysgennad effeithiol i'r Gymdeithas Gwartheg Duon Cymreig. Llongyfarchiadau iddo ar yr anrhydedd a ddaeth i'w ran a phob hwyl iddo ef ac i'r *Welsh Blacks*.

Dyma'r olaf yng nghyfres Nabod. Diolch i'r pump ar hugain a fu mor barod eu croeso a'u hymatebion - GIE




**Am
GOFERAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bannffed
rhed ar am ddim*

**James Memorials
Vicarsage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01973) 820 111**

**CODI Tŷ NEU
ESTYNIAD?**



**Iwan Jones, Technegydd Personol
Gellinwyd, Telphast, Llanidloes SY24 2HL
(01978) 823390**

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Mai, enwebwyd y canlynol i wasanaethu am y flwyddyn nesaf: Cadeirydd: Y Cynghorydd Megan Mai; Is-gadeirydd: Y Cynghorydd Gerwyn Jones. Hefyd bydd yr aelodau canlynol yn gwasanaethu ar Is-bwyllgorau'r Cyngor am y flwyddyn 2009/10: Ariannol – y Cynghorwyr Eric Roberts; Evan Evans a Rhian Evans; y Fynwent – y Cynghorwyr Nest Jenkins; Enoc Jenkins a Delyth Ifan. Bydd y Cadeirydd a'r Clerc yn aelod o'r is-bwyllgorau hyn yn rhinwedd eu swyddi. Yng ngoleuni penderfyniad diweddar Cyngor Ceredigion i gwtogi'r cyfnod a roddir i Gynghorau Bro gyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio, pasiwyd fod pob Cynghorydd yn aelod o'r Is-bwyllgor Cynllunio a fyddai'n cwrdd yn ôl y galw ar ail nos Lun y mis. Cyn ymadael â'r gadair diolchodd y Cynghorydd Nest Jenkins i aelodau'r Cyngor am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod y flwyddyn a dymunodd yn dda i'r Cynghorydd Megan Mai ar ddechrau ei thymor hithau.

Dilynwyd y cyfarfod blynyddol gan gyfarfod rheolaidd y Cyngor. Agorodd y Cadeirydd newydd, y Cynghorydd Megan Mai, y cyfarfod trwy ddiolch i'r Cynghorydd Nest Jenkins am gyflawni ei dyletswyddau mor rhagorol yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Hefyd diolchodd i weddill yr aelodau am eu hymddiriedaeth wrth ei henwebu fel Cadeirydd y Cyngor, a hynny am y trydydd tro.

Adroddodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn iddi dderbyn cynlluniau arfaethedig ar gyfer gwella'r cyfleusterau parcio ceir ym Maes-y-deri. Cytunwyd y byddai hi a'r Cynghorydd Eric Roberts yn trefnu i ymgynghori gyda thrigolion y rhan berthnasol o Faes-y-deri.

Cytunwyd hefyd i awgrymu i gydlynnydd Trefi Taclus mai'r lleoliad mwyaf addas ar gyfer mainc newydd fyddai ar bwys yr arosfan bysiau ym Maes-y-deri.

Adroddwyd bod y Cyngor wedi derbyn ateb gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd i'r gŵyn am y llain ar ochr y ffordd rhwng y Bont Fawr a Phenrhiw. Eglurir nad yw'r sefyllfa ariannol yn caniatáu i'r Asiantaeth adeiladu pafin, fel yr awgrymwyd, ond maent am adfer y borfa a gosod pyst i rwystro cerbydau rhag parcio yno.

Darllenwyd llythyr yn hysbysu'r Cyngor bod Cyngor Ceredigion bellach wedi penodi Cydlynnydd Cynllun Llwybrau Cymunedol. Maent yn barod i drafod unrhyw argymhellion gan Gynghorau Bro i wella llwybrau cyhoeddus. Cytunwyd i wahodd y Cydlynnydd i gyfarfod o'r Cyngor ym mis Gorffennaf. Adroddwyd fod y Cyngor wedi derbyn cydnabyddiaeth o'r awgrymiadau a wnaed ym mis Ebrill 2008 am safleoedd posib i'w datblygu yng Ngheulanamaesmawr fel rhan o baratodau cychwynnol y Cynllun Datblygu lleol newydd. Yn ystod y misoedd nesaf bydd Cyngor Ceredigion yn symud ymlaen i gynnal asesiadau o'r holl awgrymiadau o safleoedd datblygu posib cyn dod i gasgliad pa rai i'w mabwysiadu o fewn y Cynllun.

Adroddwyd bod cais perchnogion Cae'r Gôg, Bont-goch i ddiddymu'r amod preswyl (Cais A080563) wedi ei dderbyn. Nid oedd unrhyw sylw gan y Cyngor ar gais A090326 i ehangu'r rhodfa ddŵr a gwaith cysylltiol ar lan Llyn Craig y Pistyll. Cytunwyd i gwyno unwaith yn rhagor bod modurwyr yn gyrru eu cerbydau yn y cyfeiriad anghywir ar yr heol un-ffordd o flaen y Llew Gwyn a'r Llew Du.

Trefnu Taith Noddi i Huw

Mae'n siŵr bod llawer o ddarllenwyr *Papur Pawb* yn cofio'n dda am frwdfrydedd heintus a chyfraniad egnïol y cyn-blismon, Huw Brynmor Edwards, i fywyd cymdeithasol a diwylliannol Tal-y-bont. Bu'n byw yma am gyfnod byr cyn gorfod symud i Lanilar oherwydd ei fod yn dioddef o'r clefyd MS. Felly pan glywodd aelodau ac arweinwyr Clwb Ieuenctid Tal-y-bont, a phlant ac athrawon Ysgol Sul Bethel, am Apêl Ffagl Gobaith i godi £17,000 i brynu cadair olwyn bwrpasol iddo, roedd pawb yn awyddus i gynnal digwyddiad i godi arian at y gronfa.

Bellach mae trefniadau mewn llaw i gynnal Taith Feicio Noddedig o Aberystwyth i Lanilar ar hyd y llwybr beiciau a agorwyd yn ddiweddar ar ran o drac yr hen reilffordd i Gaerfyrddin. Bydd y daith yn dechrau

am 10 o'r gloch fore Sadwrn. 20 Mehefin, o Goedlan y Parc, Aberystwyth. Os ydych am ymuno gyda'r seiclwyr yna cysylltwch gyda Mair Nutting (832027) neu Helen Jones (832760) am ragor o wybodaeth a ffurflen noddi. Gobeithio y bydd pawb arall yn cyfrannu'n hael drwy noddi'r plant a'r bobl ifanc fel nad oes raid i Huw aros am ddwy flynedd am gadair fydd yn ei alluogi i barhau gyda'i waith gwirfoddol gyda grwpiau cymunedol ac mewn ysgolion.

Canlyniad BLE YN Y BYD mis Hydref

Helen Jones, Gellimanwydd Tal-y-bont – tocyn llyfrau £10.00 ar y ffordd.
Ateb Mai: Gardd y Llew Gwyn, Tal-y-bont.

Ble yn y byd?

Sut i chwarae

Ble yn nalgylch Papur Pawb mae'r llun yma wedi cael ei dynnu?

Ateb

Enw

Cyfeiriad

Côd Post

Rhif Ffôn

Atebion: i Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont erbyn 4 Medi.

Gwobr: Tocyn Llyfr gwerth £10

i'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.



